# Parodrwydd ar gyfer cyflwyno'r diwygiadau cenedlaethol i ysgolion o safbwyntiau staff ysgol

**Canfyddiadau o Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2020 y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion**

## Cefndir

Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod yr hyn sy'n allweddol ar gyfer gweithredu newid yn llwyddiannus mewn systemau addysg yn cynnwys diwylliant cadarnhaol, hyfforddiant digonol, a symbyliad athrawon a disgyblion.[1] Mae'r rhwystrau rhag gweithredu'n cynnwys llwythi gwaith trwm, toriadau i gyllidebau a diffyg adnoddau neu gefnogaeth. Hefyd, dangoswyd fod effeithiau addysgol canfyddedig diwygio'r cwricwlwm i ysgolion a chymdeithas (h.y. 'cefnogaeth' rhanddeiliaid) wedi bod yn gyfrwng ar gyfer gweithredu llwyddiannus.[2] Mae adolygiad Donaldson 2015 wedi llywio paratoadau Cymru i gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn genedlaethol yn 2022, sy'n cynnwys newidiadau systemig i hyfforddiant a datblygiad addysgwyr, a diwygio prosesau asesu a gwerthuso ysgolion. [3,4] Mae'r diwygiadau hyn yn newid radical o gymharu â'r Cwricwlwm Cenedlaethol blaenorol a bwriedir iddynt gyflwyno addysg fodern, addas i gymdeithas gyfoes, trwy godi safonau ysgolion, lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr, a sicrhau addysg sy'n ffynhonnell balchder cenedlaethol a hyder y cyhoedd. [5,6,7]

Yn ogystal ag un o bedwar diben cyffredinol i greu 'unigolion iach, hyderus', caiff Iechyd a Lles bwysigrwydd a statws digynsail yn y Cwricwlwm i Gymru fel un o chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDP) ochr yn ochr â'r canlynol: y Celfyddydau Mynegiannol; y Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae'r adroddiad hwn yn darparu data ar lefel parodrwydd canfyddedig ysgolion i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru o safbwyntiau staff ysgolion. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar baratoadau ynghylch cyflwyno addysg iechyd a lles ac mae'n archwilio parodrwydd ysgolion yn ôl yr hawl i brydau ysgol am ddim (PYDd) a chyfrwng iaith. Casglwyd data rhwng Ionawr a Mawrth 2020. Felly, dylid dehongli bod yr holl ganfyddiadau'n darparu ciplun o lefelau parodrwydd ychydig flynyddoedd cyn cyflwyno'r Cwricwlwm yn genedlaethol. Mae'r data, a gasglwyd cyn COVID-19,

[1] Waller, G., Finch, T., Giles, E.L., Newbury-Birch, D. Exploring the factors affecting the implementation of tobacco and substance use interventions within a secondary school setting: a systematic review. Implementation Sci. 2017; 12, 130.
[2] Pietarian J, Pyhalto K & Soini T. Large-scale curriculum reform in Finland – exploring the interrelation between implementation strategy, the function of the reform, and curriculum coherence. The Curriculum Journal. 2017; 28:22-40.
[3] Donaldson G. Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. 2015. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf
[4] Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru. 2020. https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf
[5] https://llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-trosolwg
[6] Estyn. Iach a hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion. 2019. https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Healthy%2520and%2520Happy%2520report%2520Cy_0.pdf
[7] Estyn. Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig. 2020. https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Preparing%20for%20the%20Curriculum%20for%20Wales%20cy.pdf

hefyd yn darparu gwaelodlin defnyddiol i lywio gwaith yn y dyfodol ar effeithiau COVID-19 ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru gan ysgolion, pan fydd data dilynol digonol ar gael.

## Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Sefydlwyd Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion Cymru gyfan yn 2013 ac mae'n bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymchwil Canser y DU, Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) a Phrifysgol Caerdydd.[8] Ar hyn o bryd, mae'r ysgolion sy'n aelodau'n cynnwys pob ysgol uwchradd a chanol a gynhelir yng Nghymru. Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n arwain y Rhwydwaith.[9]

## Holiadur Amgylchedd yr Ysgol (yr Holiadur)

Mae aelod o uwch staff yr ysgol yn llenwi'r Holiadur ar ran yr Uwch Dîm Arwain. Mae'n casglu data ar bolisïau ac arferion lefel ysgol sy'n anelu at wella deilliannau iechyd ac addysgol ysgolion yng Nghymru. Caiff ei gyflwyno i ysgolion y Rhwydwaith ochr yn ochr â'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr dwyflynyddol. Gyda'i gilydd, mae'r arolygon hyn yn llunio seilwaith data iechyd ysgolion i Gymru sy'n caniatáu am fonitro ymddygiadau iechyd y glasoed yn drylwyr a helpu deall rôl amgylchedd yr ysgol wrth ffurfio'r ymddygiadau hyn. I sicrhau bod y ddau arolwg yn berthnasol i bolisi ac ymarfer, ymgynghorir yn rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar gynnwys a strwythur yr arolygon.

Gofynnir i ysgolion sydd â mwy nag un safle daearyddol (ac nad yw disgyblion yn trosglwyddo rhwng y safleoedd) lenwi un holiadur fesul safle. Yn 2020, gofynnwyd i 213 o safleoedd ysgol (y'u gelwir yn 'ysgolion' o hyn ymlaen er mwyn dehongli'n hwylus) lenwi Holiadur Amgylchedd yr Ysgol, gan gynrychioli'r holl ysgolion uwchradd/canol a gynhelir yng Nghymru a rhai ysgolion annibynnol. O'r rhain, llenwyd yr Holiadur gan 167 ysgol (78%) o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys 5 ysgol annibynnol. Roedd yr ysgolion a gynhelir a gymerodd ran yn cynrychioli'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru o ran maint a lefel yr hawl i brydau ysgol am ddim (PYDd).[10] Fe wnaeth y rhain gynnwys 19 ysgol Gymraeg (83%), 118 ysgol Saesneg (78%) a 25 ysgol ddwyieithog (76%).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data ar gyfer ysgolion a gynhelir yn unig (n=162). Gofynnwyd i ysgolion am: i) y graddau yr oedd staff yn teimlo'n barod i gyflwyno'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad; ii) y mathau o weithgareddau a oedd yn cael eu gwneud i baratoi i gyflwyno Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles; iii) i ba raddau roedd staff (h.y. yr uwch dîm arwain, staff addysgu eraill, a staff bugeiliol a staff cymorth) a grwpiau

---

[8] http://www.shrn.org.uk/
[9] https://decipher.uk.net/
[10] SHRN (2021). Adroddiad ar Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2019/20 ar gyfer Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru. Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Prifysgol Caerdydd.


rhanddeiliaid eraill (h.y. disgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach), yn cymryd rhan; a iv) heriau posibl cyflwyno'r diwygiadau i'r cwricwlwm yn eu hysgol. Gweler yr Atodiad (Tabl A1) isod i gael manylion am sut y diffiniwyd y mesurau hyn i'w defnyddio yn yr adroddiad presennol. Darperir dadansoddiadau yn ôl yr hawl i brydau ysgol am ddim yn yr ysgol a'r cyfrwng iaith. Cafodd yr hawl i brydau ysgol am ddim yn yr ysgol ei asesu fel cyfran y disgyblion mewn ysgol sy'n gymwys i gael prydau am ddim. Dosbarthwyd yr ysgolion fesul PYDd-isel (n=59 ysgol), PYDd-canolig (n=55), neu PYDd-uchel (n=48)[11]. Oherwydd diffyg ymatebion i eitemau, mae meintiau bôn y sampl yn amrywio (Tabl A2).

## Canfyddiadau


### Parodrwydd staff i gyflwyno'r chwe maes dysgu a phrofiad

Adeg casglu'r data rhwng Ionawr a Mawrth 2020, adroddodd 1 o bob 3 ysgol (33%) lefel uchel o barodrwydd i gyflwyno'r chwe maes dysgu a phrofiad newydd. Roedd ysgolion yn fwy hyderus yn eu gallu i gyflwyno'r Dyniaethau (adroddodd 38% ohonynt lefel uchel o barodrwydd), Mathemateg a Rhifedd (37%) a'r Celfyddydau Mynegiannol (34%), o gymharu ag Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (31%), Gwyddoniaeth a Thechnoleg (31%) ac Iechyd a Lles (28%). Dangosodd dadansoddiadau fesul yr hawl i PYDd mewn ysgolion fod ysgolion PYDd-isel yn teimlo'n fwy parod i gyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad nag ysgolion PYDd-canolig neu PYDd-uchel (Tabl 1a). Roedd hyn yn arbennig o amlwg ynghylch cyflwyno maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles, gyda 2 o bob 5 ysgol PYDd-isel (39%) yn adrodd lefel uchel o barodrwydd o gymharu ag 1 o bob 5 ysgol PYDd-uchel (19%). Wrth ystyried cyfrwng iaith yr ysgol (Tabl 1b), adroddodd cyfran uwch o ysgolion Cymraeg lefel uchel o barodrwydd i gyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad o gymharu ag ysgolion Saesneg (44% o gymharu â 33%), gydag ysgolion dwyieithog yn teimlo'n lleiaf parod a dim ond 1 o bob 4 (25%) ohonynt yn nodi lefel uchel o barodrwydd. Ar draws y meysydd dysgu a phrofiad, roedd y gwahaniaethau mwyaf yn yr adroddiadau am lefel uchel o barodrwydd i'w gweld rhwng ysgolion Cymraeg a Saesneg ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (50% o gymharu â 30%), Mathemateg a Rhifedd (50% o gymharu â 36%) ac Iechyd a Lles (43% o gymharu â 28%).

[11] Cyfrifwyd lefelau PYDd ysgolion o ddata'r cyfrifiad ysgolion sydd ar gael ar: https://statscymru.llyw.cymru. Roedd gwerthoedd trothwyon y categorïau PYDd fel a ganlyn: isel (<13%), canolig (13-20%), uchel (>20%)





Ffigur 1a % yr ysgolion a adroddodd lefel uchel o barodrwydd i gyflwyno'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn ôl yr hawl i PYDd mewn ysgolion





Ffigur 1b: % yr ysgolion a adroddodd lefel uchel o barodrwydd i gyflwyno'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol

**Rhan staff a rhanddeiliaid mewn paratoadau i gyflwyno maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles**

Adroddodd tua 4 o bob 5 ysgol (78%) fod eu huwch dîm arwain yn cymryd rhan yn sylweddol mewn paratoadau i gyflwyno maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles. Hefyd, adroddodd 68%, 46% a 27% o ysgolion fod staff addysgu eraill, staff bugeiliol a staff cymorth, a myfyrwyr yn cymryd rhan yn sylweddol, yn y drefn honno. O gymharu, adroddwyd yn llai cyffredin fod teuluoedd (3%) a'r gymuned ehangach (5%) yn cymryd rhan mewn cynllunio ar gyfer cyflwyno iechyd a lles. Dangosodd dadansoddiadau yn ôl yr hawl i PYDd mewn ysgolion fod cyfran is o ysgolion PYDd-uchel wedi cynnwys staff bugeiliol a staff cymorth (31%) o gymharu ag ysgolion PYDd-isel (56%) ac ysgolion PYDd-canolig (49%) (Ffigur 2a). I'r gwrthwyneb, adroddodd cyfran uwch o ysgolion PYDd-uchel fod lefel uchel o fyfyrwyr yn cymryd rhan (35%) o gymharu ag ysgolion PYDd-isel (30%) ac ysgolion PYDd-canolig (16%). Roedd archwilio sut roedd staff a rhanddeiliaid yn cymryd rhan mewn cynllunio'r cyflwyno yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol wedi dangos bod cyfran uwch o ysgolion Cymraeg yn adrodd bod teuluoedd yn cymryd rhan yn sylweddol (18%) o gymharu ag ysgolion Saesneg (1%) a dwyieithog (0%). O gymharu ag ysgolion Saesneg a Chymraeg, roedd ysgolion dwyieithog yn tueddu i adrodd bod y gymuned yn cymryd rhan yn sylweddol wrth gynllunio i gyflwyno iechyd a lles, ond bod myfyrwyr yn cymryd rhan yn llai.





Ffigur 2a: % yr ysgolion a adroddodd am gymryd rhan yn sylweddol yn y paratoadau i gyflwyno maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles ymhlith staff/rhanddeiliaid ysgol yn ôl yr hawl i PYDd mewn ysgolion





Ffigur 2b % yr ysgolion a adroddodd am gymryd rhan yn sylweddol yn y paratoadau i gyflwyno maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles ymhlith staff/rhanddeiliaid ysgol yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol

**Gweithgareddau a wnaed gan ysgolion i baratoi ar gyfer maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles**

Gofynnwyd i ysgolion pa weithgareddau roeddent yn ymgymryd â nhw i baratoi i gyflwyno'r maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles. Adeg cwblhau'r arolwg, roedd 3 o bob 4 ysgol (74%) yn bwriadu addysgu iechyd a lles ar draws y cwricwlwm ac roedd ar brawf mewn 1 o bob 2 ysgol (52%). Roedd saith o bob 10 ysgol (71%) yn hyfforddi staff, 2 o bob 5 (43%) yn ymgynghori â myfyrwyr, 2 o bob 5 (43%) yn mabwysiadu ymyriadau iechyd a lles newydd, ac roedd 1 o bob 10 (10%) yn gwneud dim byd neu'n aros am arweiniad. Hefyd, adroddodd rhyw 1 o bob 10 ysgol (11%) eu bod yn ymgymryd â gweithgareddau 'eraill' i baratoi ar gyfer maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd gan ysgolion yr oedd cynnal diwrnod hyfforddiant mewn swydd i'r clwstwr yn canolbwyntio ar iechyd a lles, cynnal gwerthusiad ysgol gyfan o systemau a phrosesau lles presennol, a gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill, Llywodraeth Cymru a chonsortia addysg lleol. Dangosodd dadansoddiadau yn ôl yr hawl i PYDd mewn ysgolion fod cyfran uwch o ysgolion PYDd-uchel yn adrodd eu bod yn gwneud dim byd neu'n aros am arweiniad (18%), a dywedodd cyfran is eu bod yn hyfforddi staff (62%) neu'n mabwysiadu ymyriadau iechyd a lles newydd (38%) (Ffigur 3a). Adroddodd cyfran uwch o ysgolion PYDd-is eu bod yn cynllunio addysgu ar draws y cwricwlwm (82%) a'u bod yn cynnal ymgynghoriadau â myfyrwyr (58%). O'r ysgolion yn y sampl, ysgolion dwyieithog a oedd yn tueddu i adrodd y lefelau isaf o weithgarwch paratoadol ynghylch cyflwyno maes dysgu a phrofiad newydd Iechyd a Lles, gyda dim ond 1 o bob 2 (52%) wedi hyfforddi staff adeg casglu'r data (Ffigur 3b).




Ffigur 3a: Mathau o weithgareddau a wnaed gan ysgolion i baratoi ar gyfer cyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd yn ôl yr hawl i PYDd mewn ysgolion




Ffigur 3b: Mathau o weithgareddau a wnaed gan ysgolion i baratoi i gyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol

## Heriau wrth ddiwygio’r cwricwlwm

Gofynnwyd i ysgolion enwi heriau posibl wrth ddiwygio’r cwricwlwm yn eu hysgol. Yn gyfan gwbl, ymatebodd 99 ysgol i’r cwestiwn hwn, gyda heriau cyflwyno’n cael eu nodi’n gyffredin ynghylch: **Cynllunio a gweithredu**, **asesu**, a **gallu a ‘chefnogaeth’ staff**. Roedd heriau cynllunio a gweithredu’n cynnwys amser digonol i ddatblygu’r cwricwlwm (e.e. gweithio ar draws y cwricwlwm) a mynd i’r afael â’r agweddau ymarferol ar weithredu (e.e. staffio ac amserlennu). Roedd heriau’n gysylltiedig ag asesu’n cynnwys ymrafael â’r pontio rhwng camau dilyniant disgyblion a’r angen i gydbwyso cwricwlwm hyblyg â strwythur asesu mwy cadarn. Roedd heriau a nododd ysgolion yn gyffredin yn gysylltiedig â gallu a ‘chefnogaeth’ staff yn cynnwys sicrhau bod anghenion datblygu proffesiynol staff yn cael eu bodloni’n ddigonol a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu lesgedd ymhlith staff ynghylch diwygio’r cwricwlwm (cyflwynir dyfyniadau dethol isod).

**Cynllunio a gweithredu**

*“Amser – er mwyn cynllunio’r cwricwlwm yn effeithiol, mae angen amser ar staff i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o’r cwricwlwm i ddechrau tra’n parhau hefyd i gynllunio a chyflwyno gwersi o safon uchel i fyfyrwyr presennol. Mae angen mwy o amser wedyn i gydweithredu ar draws pynciau, meysydd dysgu a phrofiad, clystyrau ac ar draws ysgolion i sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth o gysyniadau allweddol. Yna, bydd angen mwy o amser ar y staff i ddatblygu cwricwlwm effeithiol sy’n mapio datblygiad pob maes dysgu a phrofiad dros gyfnod, o 3 i 16 oed.”*

*“Mae staff ac amser yn ddwy her byddwn ni’n eu hwynebu fel ysgol. Mae staffio bob amser yn her a bydd cael amser i wneud newidiadau ac addasu i’r cwricwlwm newydd hefyd yn arwain at heriau pellach ar bob lefel.”*

**Asesu**

*“Cydbwyso’r cwricwlwm newydd â’r arholiadau. Bydd rhaid i ysgolion addysgu cwricwlwm hyblyg yn ôl arholiadau caeth sydd heb eu dylunio eto.”*

*“Asesu yw’r her fwyaf a sut olwg fydd ar hynny wrth gysylltu â Safon Uwch/ôl 16, dilyniant disgyblion a strategaethau ymadael ag addysg.”*

*“...Ymchwilio i systemau asesu effeithiol sy’n bodloni anghenion dysgwyr, yr ysgol a’r gymuned ehangach, eu cynllunio, eu treialu a’u gweithredu.”*

**Gallu a 'chefnogaeth' staff**

*"Hyfforddiant staff – sicrhau bod dysgu proffesiynol pwrpasol yn cael ei ddarparu, sy'n cyfateb i anghenion."*

*"Sicrhau bod gan athrawon yr amser, y wybodaeth a'r sgiliau i adeiladu'u cwricwlwm ar sail egwyddorion y cwricwlwm a bodloni deilliannau'r pedwar diben."*

*"Arbenigedd – cyflwyno 'arbenigedd y tu hwnt i'r pwnc' a chyflwyno ar sail sgiliau."*

*"Mae staff yn nerfus iawn am y newid a'r atebolrwydd."*

*"Annog athrawon i arddel arddulliau addysgu newydd a chydlynu pynciau sy'n cyflawni'r gofynion."*

## Pethau i'w hystyried

- Casglwyd data rhwng Ionawr a Mawrth 2020 ac mae'n debygol y bydd tirlun paratoadau ysgolion ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru wedi newid dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Er bod gan yr arolwg gyfradd uchel yn gyffredinol o ymatebion gan ysgolion (78%, n=162 ysgol a gynhelir), roedd ymatebion i gwestiynau am baratoadau ysgolion ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn is, sef tua 51-62% o'r ysgolion a gynhelir a wahoddwyd i gymryd rhan.[12]
- Mae ysgolion â lefel uchel o hawl i PYDd yn debygol o wynebu heriau ychwanegol a all ostwng eu gallu i gymryd rhan mewn paratoadau ynghylch diwygio'r cwricwlwm.
- Mae iechyd a lles yn ychwanegiadau cymharol newydd at gwricwla ysgolion. Gellir dadlau bod hyn yn peri mai maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles fydd yn fwyaf heriol i ysgolion baratoi i'w gyflwyno a gall esbonio pam yr adroddodd ysgolion eu bod yn teimlo'n llai parod i'w gyflwyno o gymharu â meysydd dysgu a phrofiad eraill.
- Gall archwilio'r gwahaniaethau ym mharatoadau ysgolion ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn ôl yr hawl i PYDd mewn ysgolion a'u cyfrwng Iaith lywio pa fath o gymorth y mae ei angen, ac i bwy, i sicrhau bod y cymorth hwn wedi'i addasu yn ôl anghenion ysgolion.

[12] Roedd hyn yn bennaf oherwydd cyfuniad o ymatebion 'ddim yn gwybod' a bod yr arolwg wedi'i gwblhau'n rhannol (yr ail mae'n debyg oherwydd bod y cwestiynau ar y cwricwlwm newydd wedi'u gosod ar ddiwedd yr holiadur).

## Diolchiadau

Cefnogwyd y gwaith hwn gan y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) fel rhan o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Diolchwn i staff a myfyrwyr holl aelod-ysgolion y Rhwydwaith am eu cefnogaeth barhaus.

**Dr Sara Long a Dr Nick Page**

Cysylltwch â**:** Dr Sara Long, LongS7@cardiff.ac.uk

DECIPHer, Prifysgol Caerdydd, SPARK, CF24 4HQ

DECIPHer
Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd
Canolfan Ragoriaeth Ymchwil Iechyd y Cyhoedd

## Atodiad

Tabl A1: Cwestiynau Holiadur Amgylchedd yr Ysgol ar ddiwygio'r cwricwlwm

| Cwestiwn | Opsiynau ymateb | |
|---|---|---|
| I ba raddau y mae staff eich ysgol yn teimlo'n barod i gyflwyno pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad lle 1 = ddim yn barod o gwbl a 5 = wedi paratoi yn llawn.<br><br>-Y Celfyddydau Mynegiannol<br>-Iechyd a Lles<br>-Y Dyniaethau<br>-Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>-Mathemateg a Rhifedd<br>-Gwyddoniaeth a Thechnoleg | • 1 – Ddim yn barod o gwbl<br>• 2<br>• 3<br>• 4<br>• 5 – Wedi paratoi yn llawn<br>• Ddim yn gwybod<br>• Ddim yn berthnasol | Lefel isel o barodrwydd (1-3)<br>Lefel uchel o barodrwydd (4-5) |
| I ba raddau y mae'r grwpiau canlynol wedi bod yn rhan o'r paratoadau i gyflwyno Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn eich ysgol?<br><br>-Uwch dîm rheoli<br>-Staff addysgu eraill<br>-Staff bugeiliol a staff cymorth<br>-Myfyrwyr<br>-Teuluoedd<br>-Y gymuned ehangach | • Ddim o gwbl<br>• Ychydig<br>• Wedi cymryd rhan rhywfaint<br>• Eithaf tipyn<br>• Cymryd rhan amlwg<br>• Ddim yn gwybod<br>• Ddim yn berthnasol | Rhan isel<br>('Ddim o gwbl', 'Ychydig', Rhan gymedrol')<br>Rhan uchel<br>('Eithaf tipyn', 'Cymryd rhan amlwg') |
| Beth mae eich ysgol chi'n ei wneud i baratoi i gyflwyno addysg iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd? | • Dim byd/aros am arweiniad<br>• Hyfforddi staff<br>• Cynllunio addysgu iechyd a lles ar draws y cwricwlwm<br>• Treialu dulliau gwahanol o addysgu iechyd a lles ar draws y cwricwlwm<br>• Ymgynghori â myfyrwyr ar sut i gyflwyno addysg iechyd a lles<br>• Mabwysiadu ymyriadau iechyd a lles newydd<br>• Arall<br>• Ddim yn gwybod<br>• Ddim yn berthnasol | Fel y disgrifir |
| Beth yw'r heriau posibl wrth ddiwygio'r cwricwlwm yn eich ysgol? | Ysgrifennwch eich ateb isod<br>• Ddim yn gwybod<br>• Ddim yn berthnasol | Fel y disgrifir |

Tabl A2: Meintiau bôn ar gyfer ffigurau 1a-3b

| Ffigur | Eitem | Maint bôn |
|---|---|---|
| 1a, 1b | Y Celfyddydau Mynegiannol | 125 |
| | Iechyd a Lles | 128 |
| | Y Dyniaethau | 126 |
| | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | 125 |
| | Mathemateg a Rhifedd | 125 |
| | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 125 |
| 2a, 2b | Uwch dîm arwain | 110 |
| | Staff addysgu eraill | 111 |
| | Staff bugeiliol a staff cymorth | 109 |
| | Myfyrwyr | 109 |
| | Teuluoedd | 106 |
| | Y gymuned ehangach | 106 |
| 3a, 3b | Dim byd/aros am arweiniad | 123 |
| | Hyfforddi staff | 123 |
| | Cynllunio addysgu iechyd a lles ar draws y cwricwlwm | 123 |
| | Treialu dulliau gwahanol o addysgu iechyd a lles ar draws y cwricwlwm | 123 |
| | Ymgynghori â myfyrwyr | 123 |
| | Mabwysiadu ymyriadau iechyd a lles newydd | 123 |
| | Arall | 123 |